Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 14eg o Hydref 2009, yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Chris Parish, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace.
Clerc y Dref
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng. Julia Jones

Cof 158 / Hyd / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w penderfynu

E/21826 Unedau gofal hunangynhwysol a fflat rheolwyr arfaethedig, mewn cysylltiad â'r cartref gofal yn 6, Heol Newydd.
Sylw : Angen mwy o fanylion. Bydd y cynlluniau'n cael eu lawrlwytho i'w hystyried.

E/21802 Terfynu defnydd o'r adeilad fel siop fân werthu a chyfuno'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf i fod yn blasty trefol 3 ystafell wely yn 11 Adeiladau'r Banc.
Sylw : Dim gwrthwynebiad yn gyffredinol, ar wahân i'r ffaith ei fod mewn ardal gadwraeth, ac y dylid glynu wrth y rheoliadau mewn perthynas ag adeiladau yn yr ardal hon. Hefyd, oherwydd y bydd yn dŷ domestig, does dim angen Bae llwytho, a dylid ei waredu o'r cynllun rheoli traffig newydd.

Cof 159 / Hyd / 09 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/ 21826 I godi tŷ gwydr cymunedol ar dir gerllaw Rhif.5 Maes Elfryn.
RHODDWYD

E/21485 Estyniad i adeilad presennol yn Llandeilo Builders Supplies, Heol yr Orsaf.
RHODDWYD

E/21479 Newid defnydd – llawr gwaelod A2 ac A1, llawr cyntaf C3, defnydd bwriadus- llawr gwaelod A3 ac A1, llawr cyntaf D1 yn 101 Stryd Rhosmaen.
RHODDWYD

E/16925 Datblygiad preswyl (ailgyflwyno cais E/13266) ar dir gerllaw Teras Thomas (Safle warws)
RHODDWYD

Bydd adeilad y Swyddfa Newydd ym Mharc Dinefwr yn cael ei adnabod fel
Canolfan Tywi Centre,
Fferm Dinefwr,
Llandeilo
SA19 6RT

Cof 160 / Hyd/ 09 Ni chafwyd unrhyw Geisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl.

Cof 161 / Hyd /09 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Cyfarfu'r Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace a'r Cyng. Cllr Roy Davies ag Adran Gwasanaethau Stryd Priffyrdd CSG, mewn perthynas ag Adeiladau'r Banc. Roedd car un o'r trigolion yn rhwystro cerbydau'r Cyngor rhag casglu sbwriel. Byddai'r Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Richard Wallace a'r Cyng. Colin Jenkins yn cwrdd â Mr John McEvoy, rheolwr traffig CSG ar Ddydd Gwener yr 16eg o Hydref, i drafod y broblem. Gofynnwyd i'r Clerc i osod adroddiad o'r cyfarfod ar Agenda cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd.

Cof 162/ Hyd/ 09 Llwybrau troed.

Roedd Mr Hugh Gwynne wedi cwblhau'r rhaglen cynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer y flwyddyn. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr anfoneb yn cael ei phasio i'r Pwyllgor Cyllid i'w dalu. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb i blaid.

Cof 163 / Hyd/ 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Rhoddodd Mr Davies adroddiad cynhwysfawr ar yr holl waith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud yn Neuadd y Sir. Cadarnhawyd mai'r dewis leoliad ar gyfer sedd Arglwydd Dynevor yw lefel uchaf Parc Penlan, a bydd plac yn cael ei osod ar y wal gerllaw'r gatiau mynediad.

Adroddodd Mr Davies na fu'r atgyweiriad dros dro i'r ffenestr do yn llwyddiant. Yr unig ffordd o'i hatgyweirio byddai gosod ffenest velux newydd. Cynigodd y Cyng. Christopher Parish ac eiliodd y Cyng. Edward Thomas y dylid argymell y gwaith hwn i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid. Roedd pawb o blaid.

Rhoddwyd caniatâd i Mr Davies i brynu 4 het galed, yn unol â'r gofynion diogelwch, ar gyfer yr arddangosfa Dân Gwyllt. Byddai'r rhain yn dod i gyfanswm o £139.96.

Roedd angen amnewid y ffenest fach yn yr islawr. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ac eiliodd y Cyng. Charlotte Leadbeater fod hyn yn cael ei argymell i'r Pwyllgor Cyllid. Roedd pawb o blaid.

Dywedodd Mr Davies bod angen amnewid cebl Bowden yng Nghloc yr Eglwys, ac amcangyfrifwyd y byddai'n costio £300. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn hysbysu'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones, er mwyn iddo holi p'un ai byddai CSG yn talu am y gwaith atgyweirio. Mynegodd y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater ddiolch y Cyngor i Mr Davies, y Cyng. Colin Jenkins a'r Cyng. Edward Thomas am eu gwaith wrth reoli'r traffig ar fore Dydd Sul, tra bod pwyntiau angori'r goleuadau Nadolig yn cael eu gwirio.

Cof 164 A / Hyd/ 09 Prosiect Drws Agored

Cynigodd y Cyng. Roy Davies bod rhoddion o £50 yr un yn cael eu rhoi i'r ddau Gapel, sef Bedyddwyr Ebernezer a Chapel Newydd, am ganiatáu iddynt i gael eu defnyddio ar gyfer y diwrnod agored. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 164B / Hyd / 09 Yr Ardd Gymunedol

Dywedodd y Cyng. Roy Davies ei fod yn aros am ganiatâd oddi wrth CSG i lanhau ac ailblannu'r Ardd. Byddai'n cwrdd gydag Anne Hobbs o Brosiect Tywi'r Oesoedd i gadarnhau bod grant ar gael.

Cof 165 / Hyd /09 Gohebiaeth

1. Neil Bateman, Blaen Gynllunio CSG – Cynnig i gwrdd â chynrychiolwyr mewn perthynas â datblygiad preswyl bwriadus yn y Northern Quarter. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn trefnu cyfarfod, naill ai ar yr 20fed neu'r 21ain o Hydref. Byddai'r Faeres, Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn cynrychioli'r Cyngor.
2. Phil Williams CSG – Parthed ag addurniadau tymhorol. Byddai'r swyddog technegol yn cwblhau'r ffurflen.
3. Capita Symonds Parthed ag Astudiaeth Rheilffyrdd Canolbarth Cymru. Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn cwblhau'r holiadur.
4. Mr Les Jones- Cwyn mewn perthynas â gosod addurniadau tymhorol ar ei eiddo ef. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu i ymddiheuro ac i holi a fyddai Mr Jones yn fodlon i ni osod yr arwydd goleuedig.

Cof 166/ Hyd/ 09 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh.